

Rhaglen y Gêm / Matchday Programme

Y FELINHELI v PORTHMADOG



2il Rownd / 2nd Round
Dydd Sadwrn / Saturday
Cae Seilo, Y Felinheli

07.08.21 - 2.00PM



**FAW
AMATEUR
TROPHY**



FAW AMATEUR TROPHY



ANRHYDEDDAU'R CLWB

CLUB HONORS

Enillwyr / Winners

Welsh Alliance League Division 2	2019-20
Gwynedd League	1983-84, 2000-01, 2015-16
Caernarfon & District League	1981-82, 1982-83, 2013-14
NWCFA Challenge Cup	1987-88
NWCFA Junior Cup	2012-13, 2013-14
Welsh Alliance League Barritt Cup	1999-2000
Welsh Alliance League Alves Cup	1991-92
Welsh Alliance League Lock Stock Cup	2018-19
Gwynedd Cup	1984-85, 2015-16
Caernarfon & District League Alves Cup	1981-82
Caernarfon & District League Mooring Cup	1981-82
Caernarfon & District League Will Evans Cup	1982-83
Caernarfon & District League Llun Mewn Ffram Cup	2013-14

Ail / Runner-up

Welsh Alliance League	1991-92
Caernarfon & District League	2011-12, 2012-13
NWCFA Challenge Cup	1988-89, 1989-90
NWCFA Junior Cup	1985-86, 1994-95
Welsh Alliance League Barritt Cup	1981-82
Welsh Alliance League Alves Cup	1983-84, 2000-01
Caernarfon & District League Alves Cup	1978-79

Delwedd

websites that work
gwefannau sy'n gweithio

delwedd.co.uk | post@delwedd.co.uk | 01286 727 227

swyddle

recriwtio • hysbysebu

MARK MORRIS

ARBENIGWYR LLORIAU • FLOORING CONTRACTORS

• CARPETS • WOOD • DESIGN FLOORING



Call us on

01248 352385



Email us

info@markmorrisflooring.com



SNOWDONIA FIRE PROTECTION

Y GWRTHWYNEBWYR

MEET THE OPPOSITION

PORTHMADOG



Rheolwr / Manager

Craig Papirnyk

Cae / Ground

Y Traeth

Sefydlwyd / Founded

1872

HANES Y CLWB

Ffurfiwyd CPD Porthmadog, un o glybiau hynaf Cymru, yn 1884. Enillodd y clwb Gynghrair Gogledd Cymru yn 1902/03 ond ni enillwyd y Gynghrair eto tan 1937-38. Hefyd yn 1905-06, cyrhaeddodd y clwb rownd derfynol Cwpan Amatur Cymru.

Roedd y '50au, '60au a'r '70au yn ddegawdau llwyddiannus iawn i Port. Enillwyd Cwpan Amatur Cymru yn 1955/56 ac 1956/57. Daeth mwy o lwyddiant i'r Traeth yn y chwedegau wrth i'r clwb arwyddo Mel Charles. Enillwyd Gynghrair Cymru (Gogledd) tri thymor yn olynol rhwng 1966 ac 1969. Hefyd yn 1966, chwaraewyd yn erbyn Abertawe yng Nghwpan Cymru ar y Vetch o flaen torf o 10,941.

Yn ystod y saithdegau bu i'r clwb fwynhau llwyddiant eto drwy ennill Cynghrair Cymru (Gogledd) yn 1974, a colli dim ond unwaith ar y ffordd i frig y tabl, i ffwrdd i Pwllheli. Buont yn bencampwyr eto y tymor canlynol, ac yn ail yn 1976/77 a 1977/78 ac yn drydydd y tymor wedyn. Roedd arwyr megis Ted Turner, Steve Joel, Jimmy McCarthey, Steve Woodin ac amddiffynwr amlwg Roly Evans yn aelodau blaenllaw o'r timau buddugoliaethus yma. Bu hi dros ddeg mlynedd nes i Port gyrraedd y brig wedyn yn y Welsh Alliance.

Yn 1990, ymunodd Port â chynghrair newydd y Cymru Alliance, ac yna yn 1992 roedd Port yn aelodau gwreiddiol o Gynghrair Pêl-droed Cymru.

Sicrhawyd fod y stadiwm yn cyrraedd y safonau angenrheidiol a gorffennodd Port eu tymor cyntaf yn 9fed. Roedd llawer o'r



diolch, am y llwyddiant yn ganlyniad i arwyddo Dave Taylor. Aeth Dave ymlaen, yn ei ail dymor, i fod yn brif sgoriwr y Gynghrair ac hefyd Ewrop. Yn ystod ei gyfnod gyda'r clwb, sgoriodd 62 o goliau mewn 66 gêm.

Er i Marc Lloyd Williams a Dave Taylor rwydo 70 o goliau rhyngddynt yn nhymor 1993/4, unfed ar ddeg oedd Port. Llwyddwyd, serch hynny, i dorri record arall sef torf uchaf' y Gynghrair Genedlaethol. Sicrhaodd Bangor y bencampwriaeth o flaen torf o 2,500 ar Y Traeth.

Dechreuwyd y trydydd tymor gyda rheolwr newydd. Synnwyd llawer gyda'r penderfyniad i ddiswyddo Meilir Owen fel rheolwr y clwb. Daeth cyn chwaraewr Cymru, Ian Edwards i gymryd yr awenau ond, ar ôl dechrau da, yr un oedd ei dynged. Aeth pethau o ddrwg i waeth ar ôl i Mickey Thomas, cyn chwaraewr Man. U., Wrecsam a Chymru, gymryd drosodd

ond fe lwyddwyd i aros i fyny o drwch blewyn.

Apwyntiwyd Colin Hawkins i swydd y rheolwr yn 1995/96. Digwyddiadau oddi ar y cae hawliodd y sylw. Bu bron i drafferthion ariannol ddod â'r clwb i ben ond, diolch i waith caled y cyfarwyddwyr, ail lanswyd y clwb fel cwmni cyfyngedig ac achubwyd y clwb pan godwyd £10,000 o bunnoedd drwy werthu cyfranddaliadau.

Yn 1996/97, gyda'r sefyllfa ariannol yn gwella, cafodd y tîm ddechrau arbennig i'r tymor. Ni gollwyd gêm gartref tan y flwyddyn newydd a, phan ddaeth Y Barri i'r Traeth, roedd yn gêm rhwng ail a phedwerydd. Un o'r chwaraewyr, a gyfrannodd fwyaf at y cychwyn hwn, cyn iddo adael y clwb i ymuno â Wrecsam am £10,000, oedd Paul Roberts. Ar ôl ymadawiad Paul, llithrodd y clwb i orffen y tymor yn y degfed safle ond enillwyd Cwpan Her Arfordir y Gogledd.

Yn 1997/98, daeth diwedd ar gyfnod Port yng Nghynghrair Cymru yn dilyn rhediad gwael at ddiwedd y tymor. Yn rhyfeddol, wrth ystyried rhai o'r penderfyniadau a gymerwyd ers hynny, collodd Port eu safle er iddynt orffen yn 4ydd o'r gwaelod.

Yn 1998/99, yn ôl yn y Cymru Alliance. gorffennodd Port yng nghanol y tabl ond llwyddwyd i gipio Cwpan y Gynghrair. Diolch i rediad o fuddugoliaethau ar ôl i Viv Williams godi'r awenau, yn dilyn ymadawiad Colin Hawkins, gorffennodd y clwb yn bumed yn 1999-2000.

Wrth i Viv ac Osian Roberts adeiladu tîm newydd, codwyd gobeithion y cefnogwyr fod y dyddiau da ar fin dychwelyd i'r Traeth. A dyna sut y bu, wrth i Port gael un o'r tymhorau gorau yn eu hanes yn 2002-03. Enillwyd pob gêm gartref trwy gydol y tymor, gyda'r unig ddwy gêm iddynt golli yn dod ar ôl iddynt sicrhau dyrchafiad. Dyrchafwyd Port i Uwch Gynghrair Cymru gyda mantais o 19 pwynt ar frig y Gynghrair Undebol. Ychwanegwyd dwy gwpan (Cwpan Her y Gogledd a Chwpan y Gynghrair) at eu llwyddiannau.

Gyda Viv Williams ac Osian Roberts yn ffurfio'r bartneriaeth rheoli a hyfforddi, camodd Porthmadog yn ôl i Uwch Gynghrair Cymru gan orffen yn 12fed yn 2003-04. Yn y tri tymor canlynol, gorffen yn yr 11eg oedd yr hanes ac yn 2006-07 cyrhaeddwyd rownd gyn derfynol Cwpan y Gynghrair. Osian Roberts erbyn hyn oedd y rheolwr gyda Viv Williams yn is-reolwr. Am y rhan fwyaf o'r tymor, roedd cwmwl du cosb drom ac annheg y Gymdeithas Bêl Droed, am sylwadau hiliol gan un unigolyn, yn hongian uwchben y clwb. Ni ddaeth y saga hon i ben tan Fehefin 2007 wedi'r clwb fynd â'r achos at dribiwnlys

annibynnol ac o'r diwedd sicrhawyd tegwch a chyfiawnder.

Daeth cyfnod llwyddiannus Viv ac Osian wrth y llyw i ben ar ddiwedd 2006-07 gyda ymadawiad Osian i swydd gyda'r Gymdeithas Bêl Droed a Viv yn ymddiswyddo ar ôl 7 mlynedd gyda'r clwb. Dilynwyd hyn gyda cyfnod o ansicrwydd â'r canlyniadau'n dioddef o'r herwydd. Yn ystod y tri thymor 2007/10 bu 4 rheolwr gwahanol wrth y llyw gyda Clayton Blackmore yn colli ei swydd ar ôl ychydig fisoedd ac yn ôl daeth Viv Williams, dros dro, i helpu'r clwb gadw eu lle yn yr Uwch Gynghrair. Byr fu cyfnod Paul Whelan yn y swydd cyn i'r profiadol Tomi Morgan ddod yn rheolwr gan lwyddo i gadw'r clwb yn yr Uwch Gynghrair yn 2008/9. unwaith eto o drwch blewyn. Ond gyda adrefnu'r Uwch Gynghrair a chwe chlwb yn colli eu lle nid oedd dihangfa y tro yma ac ar ddiwedd 2009/10 disgyn i'r Cymru Alliance oedd yr hanes.

Yn 2010 apwyntiwyd Gareth Parry yn rheolwr i ddilyn Tomi Morgan. Bu Gareth yn y swydd am 4 tymor gyda'r 4ydd safle yn 2011/12 y gorau. Yn 2013/14 cafwyd rhediad da yng Nghwpan Cymru, yn cyrraedd rownd yr wyth olaf.. Ar ddechrau 2014/15 apwyntiwyd Craig Papirnyk, a bu yn y swydd am 5 tymor, tan Ebrill 2019. Daeth y clwb yn 4ydd yn 2016/17 ac yn 2018/19 gorffen yn y 3ydd safle. Ar gyfer tymor 2019/20 dyrchafwyd Sion Eifion Jones o'r Ail-dîm i swydd y rheolwr ond siomedig fu'r canlyniadau ac ail apwyntiwyd Craig Papirnyk. Ond gostwng i'r 3ydd Haen oedd yr hanes, gyda'r safleoedd yn y tabl yn cael eu penderfynu yn ôl trefn 'pwyntiau y gêm' oherwydd y pandemig Covid-19.

Portmadoc v. Portdinorwic.

This match took place on Saturday at Portmadoc, before a very fair gate, but which might have been much better. Those who were absent lost a pretty game, without being exciting, and although the Dinorwic men worked hard all through, the homesters clean wore them down. The weather was windy, a stiff breeze blowing from the harbour. Dinorwic had the wind at their backs during the first half, and from the kick off made bold bids for honours. Corner followed corner in quick succession, which was not at all to the taste of the Madocites, for the cry went up more than once: "Play up, boys; this won't do." The old war-cry of "Play up, Port," was dropped, because it applied equally to the one side and the other—a Babel of confusion. The homesters at this stage were playing ten men, as Dick Hughes arrived late. He appeared on the left wing in about five minutes and the front quintette soon asserted themselves and made ugly spurts towards the harbour goal. But not for long, for the Dinorwic left wing was proving very troublesome, especially the outside man, who was speedy and tricky, and also most persistent in his efforts. A. Hughes (the home right full-back) was in fine form, and punted the ball into midfield time after time, even against the strong breeze. At this stage of the game there was very little to choose between the teams, and, if anything, the advantage lay with the Dinorwic men. Jones and Charles at half were working like Trojans, and broke up the combined efforts of the Dinorwic forward string with provoking stubbornness. The home quintette would make an occasional dash, but it ended in a fizzle. Dick Hughes on the left, Williams at centre, and M. Jones on the right, missing twice when the goal was at their mercy. These three men put in a lot of tricky work. In attempting to check the Dinorwic rush, the home left back handled. A penalty was given, which the home custodian saw fly past him into the net. This was one up for the visitors. It did the homesters all the good in the world, for it fairly roused them with the result that Jones, the outside left winger, sent in shot after shot in stinging fashion, one of which at last found the net. The same player put on the second a few minutes later. Then followed the third from M. Jones. Half-time came with the homesters leading by three goals to one.

By now they had had the full measure of their opponents, and were counting on a safe victory with the wind at their backs.

Hot coffee was served in the pavilion, which is much appreciated by the players and their friends. The thanks of all concerned are due to Mr Thomas for his care of the players. He deserves a gold medal.

Soon after the re-start it was seen that the home right wing was much more effective than it was during the first half, owing to a change of position of the players—a distinct advantage. The Dinorwic goal was simply bombarded from all parts of the field, and the fourth goal came as the result of a beautiful bit of combined play between the three inside men. The fifth soon followed, then the sixth, then number seven, then number eight, and had there been time I have no doubt but that the score would have reached double figures. The score ended eight goals to one in favour of Portmadoc.

To an outsider there was not that difference between the teams which the score would lead one to expect. The Dinorwic men played a very good game all through, and a gentlemanly one, too, and with a slice of luck should have scored three or four times, but Arthur Hughes and his mate were in tip-top form. The home goalkeeper was continually on the keen lookout for any and every stray shot; the home halves, especially Jones and Charles, were like terriers in their worrying tactics; and the forwards, especially Roberts, Jones, and Hughes, were more than a match for their weightier opponents, both in skill, cleverness, and speed. These are the secret springs of Portmadoc's success. The reserve goalkeeper of Portmadoc is an excellent understudy to Evan Davies. I understand he is an assistant at the County School in Portmadoc. He lacks height, but is very active, and if he could kick a bit more vigorously he would make a tip-top guardian of the "rigging."

The visitors have no need to be ashamed of themselves, and should have a very successful season. Their goalkeeper is not to be blamed for the shots that went past him. No one could have stopped them, and although he stopped a "soft" penalty, he could not possibly deal with the rockets that cannoned into the net at close range. They all worked hard, especially the sturdy and good-natured full-back, who got floored unceremoniously on several occasions. An old hand like him—"Jimmy," I think, they call him—should be able to keep on his "pins" in a more dignified manner. However, he took it all in a very good spirit, fair play to him.

The referee was very strict, almost too much so, I thought, at times. Why the penalty was given against Portdinorwic is a mystery to me and my friends. However, the referee saw more than we did, and we were all smoking our cigars and pipes, which made our "perspectives" a bit nebular and uncertain. It was a very pleasant game all through the Dinorwic men having made themselves great favourites with the Madoc crowd owing to their gentlemanly play and conduct. They were beaten by a smarter set of forwards and a sturdier set of halves and backs, but they did not deserve to be beaten by so many goals. Eight goals to one is a hard nut to crack.

D.T.H.

Quiz Eifion

1. Who am I ? – as a manager I lead England to their First world title since 1966. I got to the semi final and final of the championship play offs in my First 2 season as a club manager at senior level?
2. Who am I ? I swapped shirts with Pele after the game which he scored his début World Cup goal. I won the Welsh cup with both Cardiff and Swansea?
3. Who am I ? During my career I have been a Carpenter, Gladiator, Mason and an Archer?
4. Who was the winner of the 1994 European Golden Shoe award?
5. What connects the answers to 1-4?

Atebion ar dudalen 27, / Answers on page 27



DOCSHED

RHAGLENNI FFEITHIOL

BEVERLEY JONES

HAIRDRESSING



ANDREW COOK
BARBERING

Shed.
GOFOD
CREADIGOL
LŴR



Y FELINHELI 2

LLANRWST UNITED 2

04.08.21 - Ardal North West, Cae Seilo

Gydag Ifan Em a'i arddwrn mewn plaster, a Tryst efo'i benglin mewn strap, toedd y newyddion fod Gavin wedi cracio asen dydd Sadwrn ddim be oedd y cefnogwyr eisiau glywed. Roedd Aled Pob a Iwan Bonc dal yn gwella ar ol anafiadau, Gruff ar ei wyliau yn Aberdaron, a Caio ar ei ffordd i America. Ond roedd chydig bach o newyddion da gyda Mereds Darbi a Ows Em Spanar ar gael am y tro cyntaf eleni.

Hogia Dyffryn Conwy yn cîn, yn cyrraedd y cae o flaen tîm Felin. Ac felly ddechreuodd y gêm, gyda Llanrwst yn ymosod drwy'r hanner cyntaf ac yn cael mwy na'u siar o'r bêl. Cafwyd cyfle ar ol cyfle, ond roedd amddiffyn Felin yn delio efo nhw reit dda. Ifan Dafydd a Dyl yn y canol yn parhau eu partnerieth ar ol gorfod llenwi y safle wedi

anafiadau Ifan Em a Tryst dydd Sadwrn diwethaf. A Guto yn y gôl yn cario mlaen lle orffennodd o yn Rhostyllen gyda cwpwl o sêfs anhygoel.

Ond aeth Llanrwst ar y blaen gyda gôl anlwcus iawn i Felin, difflecshon enfawr yn gadael yr ardderchog Guto heb obaith o'i safio, hyn ar ol hanner awr ballu. Roedd yr ymwelwyr yn edrych yn beryg, ond llwyddwyd cyrraedd hanner amser heb ildio gôl arall.

Toedd Euron ddim ar gael heno, felly mae'n raid fod sgwrs hanner amser Islwyn Bonc wedi tanio rhywbeth, gan fod yr ail hanner yn stori hollol wahanol. Dechreuodd canol cae Felin berfformio fel mae'n nhw yn medru, gyda Iw Eds yn tynnu'r strings. Roedd hanner awr cyntaf yr ail hanner yn adloniant pur.

Ac o gic rhydd perffaith gan Archie i'r boc, Chris Brown oedd yno i droi y bel i fewn i'r rhwyd. Gôl streicar "hen ffashwn"



go iawn, yn defnyddio ei gryfder i gael o flaen yr amddiffynwyr.

Iwan Eds wedyn yn cael rym bendigedig ac yn taro'r postyn o ryw 20 llath ac yn anlwcus i beidio sgorio. Dim ots o gwbl, achos tri munud wedyn, aeth ei ergyd o le ddigon tebyg, i fewn oddi ar y postyn i roi Felin 2-1 ar y blaen. Dim ond Felin oedd yn y gêm ac edrychai fel bod mwy o goliau ar y ffordd.

Ond gyda chydig dros 10 munud yn weddill, aeth un o fois Llanrwst lawr fel brechdan yn y bocs, ac er nad oedd y reff yn cymeryd dim o'i lol, roedd y leinsman (boi Rownd a Rownd) yn chwifio ei fflag yn wyllt. Ddigon i'r reff rhoi penalty. Anlwcus unwaith eto, 2-2.

Rhoddodd hyn chydig o hyder i Lanrwst, a gafon nhw cwpwl o gyfleoedd, ond arbedodd Guto pob cynnig. A bu cyfle neu ddau i Felin gipio'r tri phwynt hefyd. Cafwyd cic rydd yn eiliadau olaf y gêm mewn safle bygythiol, ond dros y bar o fymryn aeth shot Iw Eds, cyn i William Peel

y reff chwythu ei chwiban am ddiwedd y gêm.

Daeth Al Em ac Ows Spanar ymlaen yn lle Cra ac Archie ar ol y benalti. Ac er fod Mereds heb chwarae gêm ers amser maith, llwyddodd i barhau tan y diwedd gyda perfformiad canmoladwy.

Gêm dda i'r dyrfa iach iawn o ryw 90 efallai. A chanlyniad derbynniol i Felin o ystyried y chwaraewyr oedd ar goll. Yn y diwedd, roedd pawb o Felin yn siomedig na chafwyd buddugoliaeth. Perfformiad gwych iawn ar ol cychwyn chydig yn nerfus. "Cymeriad" mae nhw yn ei alw fo.

Adroddiad gêm

GWIL JOHN



TIMAU / LINEUPS
















← CPD Y Felinheli FC – Llanrwst United FC
4. Aug 2021, 18:45






★  2:2  ☆

TIMELINE	LINEUP	INFO
1 HUGHES G.  G		OWEN G.  1
2 JONES I.  		WILLIAMS H.  2
3 CAIN R. 		GWYNDAF G.   3
4 JAPHETH C.  		NICOLSON C.  4
5 JONES D. 		SULLIVAN S.   5
6 STEAD I. 		THOMAS M.   6
7 JONES R.  C		JONES T.   7
8 DERBYSHIRE M. 		EDWARDS C.  8
11 PARRY R.  		JONES S.   9
12 BROWN C.   		GRIFFITHS L.  10
14 EDWARDS I.  		LUNDSTRAM B.  11

Substitutions

13 JONES M.  G	EVANS G.   12
10 EMYR A.  	EVANS C.   14
15 HUGHES M. 	DAVIES I.  16
16 ROBERTS O.  	ROBERTS I.  17
17 GRIFFITH A. 	

Team officials

OWEN I.  First Team Manager	OWEN B.  Assistant Manager
	EVANS G.  Coach
	ROBERTS M.  First Aider
	GRIFFITHS L.  Team Manager

Lluniau / Pictures: Phil Stead

www.cpd-y-felinheli.cymru

Londis

89-91 Stryd Bangor, Y Felinheli.



LA MARINA

KITCHEN - BAR - CEGIN

HUWS  GRAY



MORFA LODGE

HOLIDAY PARK



RHOSTYLLLEN 1 Y FELINHELI 1

31.07.21 - Ardal North West, The Rec

Dechreuodd Felin ymgyrch Ardal Northern (NW) gyda pwynt gwerthfawr oddi gartref yn Rhostyllen.

Ar ôl trip awr a hanner lawr yr A55, ath rhai o'r Felin Ultras i ymweld a'r pentref wrth i'r tîm baratoi at y gêm. Sgoriodd Felin ar ôl 20 eiliad. Y bêl yn disgyn i Gavin rhyw 35 llath oddi wrth y gôl, yn saethu'r bêl dros y gôl-geidwad i gefn yr rhwyd. Dechrau da, a hanner y cefnogwyr dal ar eu ffordd yn ôl o'r dafarn.

Cafodd Rhostyllen rhan fwyaf o'r meddiant yn yr hanner cyntaf ond y cyfleodd gorau'n disgyn i Felin, Ifan Stead a Rhodri Dafydd yn dod yn agos. Hanner cyntaf digon calonogol i Felin, ar y blaen 1-0 ar yr hanner.

Roedd na gwpwl o chwaraewyr yn teimlo'r frwydr ar hanner amser, felly roedd rhaid

i'r fainc fod yn barod.

Dechreuodd yr ail hanner fel orffennodd y cyntaf, Rhostyllen yn rheoli, ond Felin yn gyfforddus. Pum munud i mewn i'r ail hanner, roedd Ifan Em i lawr, wedi anafu ei fraich yn yr hanner cyntaf a methu cario ymlaen. Esgus perffaith i glywed chwedl enwog Euron unwaith eto. Daeth Aled Em ymlaen a Dyl Jr yn disgyn i gefn yr amddiffyn. Pum munud yn ddiweddarach ac roedd Trystan Dafydd i lawr wedi anafu ei benglin eto. Mae Tryst wedi bod mor anlwcus gydag anafiadau. Dywedodd Dyl Jr "Petha fel ma sy'n gneud fi beidio coelio mewn Duw"... geiriau doeth Dyl. Felly daeth Cra Bra ymlaen yn ei le ac Ifan Dafydd Ddim Drws Nesa Ddim Mwy yn symud at Dyl Jr i ganol yr amddiffyn. Cefnogwyr Felin wedi methu hyn i gyd eto, wrth iddyn nhw droedio'n ara deg o'r dafarn i'r cae.

Gyda gymaint o chwaraewyr yn chwarae allan o'u safleodd a pwysau Rhostyllen yn cynyddu, daeth gôl gan y tim cartref wedi camddealltwriaeth yn yr amddiffyn. Y sgôr yn gyfartal 1-1 gydag ugain munud caled i fynd.

Roedd Rhostyllen dal i bwysu a Felin yn gweld hi'n anodd cael gafael ar y bêl. Guto'n gwneud arbediadau gwych gan gadw Felin yn y gêm, ac amddiffyn arwrol gan y tîm oddi cartref yn cadw'r sgôr yn gyfartal. Euron wedi newid i'r shorts a sannau du rhag ofn bod mwy o anfiadau.

Cafodd Felin cwpwl o wrth-ymosodiadau yn y diwedd, Gavin yn cario'r bêl i'r cwrnt cosbi a'n cael ei lorio gan amddifynwr Rhostyllen. Ond dim byd gan y dyfarnwr. Yna wedi gwaith da gan Ryan a Gavin dyma Rhodri Dafydd yn ffeindio'i hun gyda'r bêl o flaen y gôl. Wrth iddo freuddwydio am yr "headline" - RHODSTYLLEN - dyma fo'n cael gwthiad bach gan amddifynwr Rhos cyn taro'r bêl at y gôl. Ond yn anffodus, gôl geidwad Rhostyllen yn gwneud arbediad campus.

Yn fuan wedyn daeth y chwiban olaf. Pwynt gwerthfawr oddi cartref i Felin yn eu gêm gyntaf yn "Tier 3" ers blynyddoedd. Gwellhad buan i ddau gawr yr amddiffyn, Ifan Emyr a Trystan Dafydd. Ymlaen i'r gêm yn erbyn Llanrwst, nos Fercher yn Cae Seilo.

Adroddiad gêm

ALED EMYR



TIMAU / LINEUPS



Rhostyllen FC – CPD Y Felinheli FC
31. Jul 2021, 14:30

1:1

TIMELINE	LINEUP	INFO
1 JONES J. G		HUGHES G. G 1
3 JONES D.		JONES I. 2
4 WICKENS D. C		CAIN R. 3
6 GARNER J.		DAFYDD T. 4
7 THOMAS C.		EMYR I. C 5
8 MCBURNEY L.		JONES D. 6
9 DOUGLAS T.		JONES R. 7
10 SWORDS S.		JOHN G. 8
11 ALLMAN S.		LLOYD-JONES G. 9
17 CHESTERS S.		EDWARDS I. 10
		STEAD I. 11

Substitutions

2 DACEY R.	EMYR A. 12
5 WILLIAMS A.	JONES M. 13
12 RICHARDS R.	BROWN C. 14
14 BITHELL A.	HUGHES C. 15
15 ROBERTS K.	DAVIES E. 16
16 RYAN A.	

Team officials

TROW G. Coach	DAVIES E. Team Manager
HIGNETT D. Coach	
JONES S. First Aider	

Lluniau / Pictures: Phil Stead

ArGoedd

Cysylltiadau Cyhoeddus • PR.

 argoedd.cymru



IOREN

BWYDYDD • FOODS



I.M & D.M Owen
(Adeiladwyr) CYF

islwynbonc@yahoo.co.uk

dylbonc@live.co.uk

07880714136

07917572305



HANES Y CLWB

Er mai dim ond ers 1977 y mae'r clwb presennol wedi' ffurfio, mae nifer o dimau wedi bodoli yn y pentref yn y gorffennol. Mae tystiolaeth o dîm yn y pentref yn y 1890au yn ogystal ag amryw o dimau yn y 1920au a 30au.

Mae 'na gofnod o Port Dinorwic yn ennill Cwpan Alves Cynghrair Caernarfon a'r Cylch yn 1945/46. Roedd y timau yma i gyd yn chwarae eu gemau cartref ar gae yn Stad y Faenol.

Cyn y clwb presennol, roedd tim yn y 1960au a chwaraeodd yng Nghyngrair Caernarfon a'r Cylch am ddau dymor. Roedd y clwb yma'n chwarae ar yr un cae a'r clwb presennol.

Ffurfiwyd y clwb presennol ar y 3ydd o Orffennaf, 1977 fel Portdinorwic Football

Club, gan ymuno a Chynghrair Caernarfon a'r Cylch. Blwyddyn yn ddiweddarach, newidiwyd enw'r clwb i Clwb Pel Droed Y Felinheli (sef yr enw sy'n cael ei ddefnyddio heddiw).

Enillodd y clwb Cynghrair Caernarfon a'r Cylch yn 1981/82 a 1982/83, ac yn 1983/84 ymunodd y clwb a'r cynghrair newydd, Cynghrair Gwynedd. Felin oedd ennillwyr cyntaf y gynghrair yma ac yn sgil hyn, cafwyd dyrchafiad i Gynghrair Undebol y Gogledd (The North Wales Coast League). Yn 1987/88, ennillodd y clwb eu tlws mwyaf sef y 'North Wales Coast Challenge Cup', a roedd y clwb yn ail yn yr un cystadleuaeth yn 1988/89 a 1989/90.

Yn 1991/92 cyrhaeddodd y clwb eu safle uchaf erioed, sef ail yng Nghyngrair

Undebol y Gogledd. Yn ogystal a hyn, gwelwyd y dorf mwyaf erioed yn Cae Seilo pan ddaeth tua 600 o bobl i weld gem olaf y tymor yn erbyn Llangefni Town i benderfynnu tynged y gynghrair. Enillodd y clwb Cwpan Alves y Cynghrair Undebol yn yr un tymor gan guro Nantlle Vale.

Yn 1994/95, disgynodd y clwb yn ol i Gynghrair Gwynedd, ble treuliodd y 6 tymor nesaf. Yn ystod y cyfnod yma, roedd llwyddiant i'r clwb yn Cwpan Barrit, ac yn 2001, enillodd y clwb Gynghrair Gwynedd a cael dyrchafiad yn ol i Gynghrair Undebol y Gogledd. Yn y tymor cyntaf yn ol, gorffennodd y clwb yn hanner uchaf y tabl, ond nid oedd y tymor canlynol mor llwyddianus a disgynodd y clwb yn ol i Gynghrair Gwynedd. Roedd disgyniad arall y tymor canlynol yn ol i Gynghrair Caernarfon a'r Cylch.


Dros y blynyddoedd nesaf, roedd y clwb yn ail yn y tabl ar nifer o achlysuron, a enillodd y clwb y NWCFA Junior Cup yn 2013 a 2014.

Yn 2013/14, cyflawnodd y clwb y trebl gan ennill y gynghrair, y Junior Cup a Cwpan

Llun Mewn Ffram gan sicrhau dyrchafiad yn ol i Gynghrair Gwynedd.

Ar ol cyfnod byr o ddwy flynedd yng Nghynghrair Gwynedd, dyrchafwyd y clwb yn ol i system cynghreiriau yr FAW ar ol cyflawni'r dwbl gan ennill Cynghrair Gwynedd a Cwpan Gwynedd yn nhymor 2014/15.





CLUB HISTORY

Although the current club was only formed in 1977, there have been many teams in the village in the past. There is evidence of a team in the village in the 1890s and various teams during the 1920s and 30s.

There's a record of Port Dinorwic winning the Caernarfon & District League Alves Cup in 1945/46. All of the above teams played their home games on a field within the Faenol Estate.

Before the current club there was a team in the 1960's that played in the Caernarfon & District League for two seasons, this club played on the same ground that the current club plays on.

The current club was formed on the 3rd of July 1977 as Portdinorwic Football Club and entered the Caernarfon And

District League. A year later the name was changed to Clwb Pel Droed Y Felinheli (which is the name that is currently used).

The club won the Caernarfon And District League in 1981/82 and 1982/83, and in 1983/84 they entered the newly formed Gwynedd League, of which they were the inaugural champions and got promoted to the Welsh Alliance League (The North Wales Coast League). In 1987/88 the club won their highest honors the North Wales Coast Challenge Cup, the club were finalist in the same competition in 1988/89 and 1989/90.

In 1991/92 the club gained their highest league position of 2nd in the Welsh Alliance League, they also had their highest attendance of all time when

approximately 600 people turned up at Cae Seilo to watch the end of season title decider against Llangefni Town. Also that season, the club were the Welsh League Alves Cup Winners against Nantlle Vale.

In 1994/95 the club were relegated back to the Gwynedd League, where the club spent the next 6 seasons. During this period the club gained success in the Barritt Cup, in 2001 the club won the Gwynedd League, gaining promotion back to the Welsh Alliance League. After a relatively successful 1st season back with a top half finish, the 2nd season was not as impressive finishing at the foot of the table being relegated to the Gwynedd League. With a further relegation the next season to the Caernarfon District League.

Over the next few years the club were runners up a few times along with back to back NWCFA Junior Cup titles in 2013 and 2014.

In 2013/14 the club achieved the coveted League, Junior Cup and Llyn Mewn Ffram treble achieving a promotion back to the Gwynedd League.

After a short two season spell in the Gwynedd League the club gained promotion back into the FAW's directly affiliated league system after winning the Gwynedd League and Cup double in the 2014/15 season.





- Civil Engineering & Groundworks -
Peirianeg Sifil a Gwaith Tir
- Drain Cleaning & Jetting -
Glanhau a jetio draeniau
- Environmental Services -
Gwasanaethau amgylcheddol

07876220571 - info@cromwell-services.co.uk



RONDO

SGORIO

tegfau
Llanrug



BATHODYNAU £3

BADGES £3



Mae bathodynau newydd wedi eu creu i nodi ennill y gynghrair yn nhymor 2019-20. Mae un bathodyn yn costio £3 (postio yn ychwanegol os fydd angen). Cysylltwch a'r clwb drwy ebost: post@cpd-y-felinheli.cymru, cyfryngau cymdeithasol, neu'r rhif ffon **07917572305**.

New badges have been created to mark the 2019-20 league winning season. One badge costs £3 (plus postage). Contact the club by email: post@cpd-y-felinheli.cymru, social media, or phone **07917572305**.

ARDAL NORTH WEST



Tabl y Gynghair / League Table

Wedi diweddarau 05.08.21 / Updated 05.08.21

#	Team	PI	HW	HD	HL	AW	AD	AL	W	D	L	F	A	Diff	Pts
1.	Brymbo	2	1	0	0	1	0	0	2	0	0	6	3	3	6
2.	Llanrwst Utd	2	1	0	0	0	1	0	1	1	0	5	4	1	4
3.	Rhostyllen	2	0	1	0	1	0	0	1	1	0	3	2	1	4
4.	Porthmadog	1	0	0	0	1	0	0	1	0	0	4	0	4	3
5.	Mold Alexandra	1	1	0	0	0	0	0	1	0	0	4	2	2	3
6.	Llandudno Albion	2	0	0	0	1	0	1	1	0	1	6	5	1	3
7.	Llanuwchllyn	1	0	0	0	1	0	0	1	0	0	4	3	1	3
8.	Rhydywryn	1	1	0	0	0	0	0	1	0	0	2	1	1	3
9.	Y Felinheli	2	0	1	0	0	1	0	0	2	0	3	3	0	2
10.	Denbigh Town	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
11.	Nantlle Vale	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
12.	Blaenau Amateurs	1	0	0	1	0	0	0	0	0	1	2	3	-1	0
13.	Brickfield Rangers	2	0	0	1	0	0	1	0	0	2	4	6	-2	0
14.	Llay Welfare	2	0	0	1	0	0	1	0	0	2	3	5	-2	0
15.	St Asaph City	1	0	0	1	0	0	0	0	0	1	1	4	-3	0
16.	Saltney Town	2	0	0	1	0	0	1	0	0	2	1	7	-6	0

TYMOR 2021-22 SEASON

10.07.21	14:00	Y Felinheli	4-0	Mynydd Llandegai	Welsh Cup
17.07.21	14:00	Y Felinheli	4-0	Llanystumdwy	FAW Trophy
24.07.21	14:00	Y Felinheli	2-0	Waunfawr	Welsh Cup
31.07.21	14:30	Rhostyllen	1-1	Y Felinheli	League
04.08.21	18:45	Y Felinheli	2-2	Llanrwst	League
07.08.21	14:00	Y Felinheli	v	Porthmadog	FAW Trophy
14.08.21	14:00	Saltney Town	v	Y Felinheli	Welsh Cup
18.08.21	18:30	Nantlle Vale	v	Y Felinheli	League
25.08.21	18:30	Y Felinheli	v	Blaenau Ffestiniog Amateurs	League
28.08.21	14:30	Saltney Town	v	Y Felinheli	League
18.09.21	14:30	Y Felinheli	v	St Asaph City	League
25.09.21	14:30	Mold Alexandra	v	Y Felinheli	League
02.10.21	14:30	Y Felinheli	v	Brickfield Rangers	League
09.10.21	14:30	Y Felinheli	v	Brymbo	League
16.10.21	14:30	Llay Welfare	v	Y Felinheli	League
23.10.21	14:30	Denbigh Town	v	Y Felinheli	League
30.10.21	14:30	Y Felinheli	v	Llandudno Albion	League
06.11.21	14:30	Porthmadog	v	Y Felinheli	League
13.11.21	14:00	Y Felinheli	v	Llanuwchllyn	League
20.11.21	14:00	Y Felinheli	v	Rhydymwyn	League
27.11.21	14:00	Y Felinheli	v	Rhostyllen	League
04.12.21	14:00	Llay Welfare	v	Y Felinheli	League Cup
11.12.21	14:00	Llanrwst	v	Y Felinheli	League
18.12.21	14:00	Blaenau Ffestiniog Amateurs	v	Y Felinheli	League
26.12.21	14:00	Y Felinheli	v	Nantlle Vale	League
05.02.22	14:00	Y Felinheli	v	Saltney Town	League
12.02.22	14:00	St Asaph City	v	Y Felinheli	League
19.02.22	14:00	Y Felinheli	v	Mold Alexandra	League
26.02.22	14:00	Brickfield Rangers	v	Y Felinheli	League
05.03.22	14:30	Brymbo	v	Y Felinheli	League
12.03.22	14:30	Y Felinheli	v	Llay Welfare	League
19.03.22	14:30	Y Felinheli	v	Denbigh Town	League
25.03.22	19:45	Llandudno Albion	v	Y Felinheli	League
02.04.22	14:30	Y Felinheli	v	Porthmadog	League
09.04.22	14:30	Llanuwchllyn	v	Y Felinheli	League
16.04.22	14:30	Rhydymwyn	v	Y Felinheli	League



macron



**ARDAL
NORTHERN**

OFFICIAL BALL PARTNER

Atebion y cwis / Quiz answers

1. Steve Cooper
2. Mel Charles
3. Barri Griffiths
4. Dave Taylor
5. All ex Porthmadog Players.

**LOCK
STOCK**
SELF STORAGE



**ARDAL
NORTHERN**

**Discount for
all players
and officials
on our
storage and
fireworks**



**25%
OFF
STORAGE** **LOCK
STOCK**
SELF STORAGE **FIRST 3
MONTHS**



www.lockstock.biz
0808 100 1292



Terms & conditions apply:
See website for more details.
Applies to the first 3 months of storage only.
On presentation of Ardal League players and officials ID.
Not to be used in conjunction with any other offer.
Valid until 31st July 2021



**LOCK
STOCK**  **ARDAL
NORTHERN**

0808 100 1292

**LOCK
STOCK**  **ARDAL
NORTHERN**





RHEOLWR: EURON DAVIES

Chris Brown
Ryan Liam Cain
Carwyn Dafydd
Trystan Dafydd
Euron Wyn Davies
Meredydd Huw Derbyshire
Iwan Edwards
Rhys Edwards
Aled Emyr
Ifan Emyr
Aled Wyn Griffith
Dion Wyn Griffiths
James Matthew Robert Hatton
Aled Llyr Hughes
Caio Rhys Hughes
Guto Dwylan Hughes
Martin James Hughes
Matthew Hughes
Connor Patrick Japheth
Gruff John
Dylan Michael Waters Jones
Ifan Dafydd Jones
Marc Wyn Jones
Rhodri Dafydd Jones
Gavin Lloyd-Jones
Dylan Meredydd Owen
Iwan Gwilym Owen
Rhys Sion Parry
Owain Emyr Roberts
Ifan Parry Stead
Gwion Tegid
Aled Williams

RHEOLWR: CRAIG PAPIRNYK

Dylan Roberts
Josh Banks
Ben Fisher
James Morgan
Nathan Craig
Sol Kempster
Ifan Emlyn Jones
Rhys Alun Williams
Math Roberts
Gareth Jones-Evans
Dewi Thomas
Stuart Rogers
Marcus Banks
Paul Lewis
Lewys Turner
Marcus Orlik
Jamie McDaid
John Littlemore
Matthew Jones
Julian Williams

Dyfarnwr / Referee: Stephen Jones